



GYRWYR CERBYDAU HACNAI/CERBYDAU HURIO PREIFAT POLISI MEWN PERTHYNAS AG EUOGFARNAU PERTHNASOL

Wrth wneud cais am drwydded i yrru cerbyd hacnai neu gerbyd hurio preifat, gofynnir ichi ddatgelu manylion unrhyw droseddau yr ydych wedi'ch cael yn euog ohonynt neu unrhyw rybuddion a roddwyd ichi, ond ni fydd eisiau ichi sôn am y rhai sydd wedi 'bwrw eu cyfnod' o dan Ddeddf Ailsefydlu Troseddwyd 1974. A fyddwch chi gystal â nodi bod unrhyw rybudd a gafwyd yn gyfystyr â bod yn euog, ac yn cael ei ystyried fel petai'n euogfarn. Byddwn yn cadw'r wybodaeth yn gwbl gyfrinachol, i'w defnyddio yn unig i ystyried eich cais.

Mae gan yr Awdurdod yr hawl cyfreithiol i holi'r heddlu a oes gan ymgeisydd record droseddol. Byddwn yn cadw'r wybodaeth a geir gan yr heddlu yn gwbl gyfrinachol ac yn ei defnyddio yn unig at ddiben y broses drwyddedu. Ni fyddwn yn ei chadw am fwy nag sydd raid.

Ni fydd record droseddol neu wybodaeth arall yn eich rhwystro rhag cael trwydded os na ystyrir bod y drosedd y'ch cafwyd yn euog ohoni yn eich gwneud yn anaddas. Wrth benderfynu ar y mater hwn, bydd yr Awdurdod yn ystyried natur y drosedd, pa mor hir yn ôl a beth oedd eich oedran pan wnaethoch ei chyflawni ac unrhyw ffactorau eraill a allai fod yn berthnasol. *Amgaeaf ganllaw ar y pwnc i'ch helpu.*

Os gwrthodir trwydded gyrrwr ichi am nad ydych yn berson ffit neu addas, gallwch apelio at Lys yr Ynadon.

Os hoffech drafod pa effaith y gallai euogfarniad ei chael ar eich cais, ffoniwch swyddog enwebedig y Cyngor a chael cyngor cyfrinachol ganddo/ganddi.

**Pennaeth Tai & Diogelu'r Cyhoedd
Adran Gofal Cymdeithasol a Thai
Cyngor Sir Caerfyrddin
Swyddfeydd y Cyngor
3 Heol Spilman
Caerfyrddin
SA31 1LE**

CANLLAWIAU YNGLYN Â PHERTHNASEDD EUOGFARNAU

Polisi Cyffredinol

1. Bernir pob achos yn ôl ei rinweddau.
2. Ni fydd person a gafwyd yn euog o gyflawni trosedd ddifrifol o anghenraid wedi'i wahardd am byth rhag cael trwydded ond disgwylir iddo fod wedi peidio â throsteddu, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, am dair i bum mlynedd cyn cyflwyno cais. Gellid bod yn hyblyg gyda throsteddau untro a gyflawnwyd o dan amgylchiadau anghyffredin. Amddiffyn y cyhoedd serch hynny fydd ein blaenoriaeth bennaf.
3. Mae'r enghreifftiau canlynol yn ganllaw cyffredinol o ran pa gamau i'w cymryd wrth ystyried cais gan berson a gafwyd yn euog o drosedd:

(a) Troseddau traffig mân

Ni waherddir person sydd wedi'i gael yn euog o fân-drosedd e.e. cau ffordd, aros mewn stryd gyfyngedig, gor-yrru ac ati rhag cyflwyno cais. Os bydd wedi cael digon o bwyntiau i'w wahardd rhag gyrru, yna gellid rhoi trwydded cerbyd hacnai neu gerbyd hurio preifat ar ôl iddo gael ei drwydded yrru yn ôl ond rhoddir rhybudd iddo.

(b) Troseddau traffig difrifol

Os bydd person wedi'i gael yn euog unwaith o yrru yn esgeulus neu o yrru heb ofal ac ati, fel arfer rhoddir rhybudd iddo a'i gynghori ynglyn â'r safon a ddisgwylir gan yrwyr cerbydau hacnai a cherbydau hurio preifat. Fodd bynnag, os yw'r ymgeisydd wedi'i gael yn euog fwy nag unwaith am y math yma o drosedd yn y ddwy flynedd ddiwethaf, fe'i gwrthodir ac ni dderbynnir cais ganddo tan y bydd cyfnod o un i dair blynedd yn mynd heibio heb iddo droseddu.

(c) Meddwdod

(i) Gyda Cherbyd

Gwgir ar ymgeisydd sydd wedi'i gael yn euog o yrru neu o fod yn gyfrifol am gerbyd o dan ddylanwad alcohol. Ni fydd achos unigol o reidrwydd yn gwahardd ymgeisydd ond rhoddir rhybudd cryf iawn iddo ynglyn â'i ymddygiad yn y dyfodol. Bydd ymgeisydd sydd wedi'i gael yn euog o drosedd o'r fath fwy nag unwaith yn ennyn amheuan mawr ynglyn â phriodoldeb rhoi trwydded iddo. Rhaid i o leiaf dair blynedd fynd heibio (ar ôl rhoi'r drwydded yrru yn ôl iddo) cyn y gellid derbyn cais ganddo am drwydded. Os ceir yr awgrym lleiaf bod ymgeisydd yn alcoholig, trefnir archwiliad meddygol ar ei gyfer cyn ystyried ei

gais. Os gwelir bod yr ymgeisydd yn alcoholig, rhaid i gyfnod o bum mlynedd fynd heibio ar ôl cwblhau triniaeth cyn y gellid derbyn cais arall ganddo am drwydded.

(ii) Heb fod mewn cerbyd

Ni waherddir ymgeisydd sydd wedi'i gael yn euog o fod yn feddw unwaith rhag cael trwydded. Fodd bynnag, gallai nifer o euogfarnau am feddwddod fod yn arwydd bod problem feddygol a bod angen cynnal archwiliad (gweler (i) uchod). Mewn rhai achosion, gallai rhybudd fod yn ddigon.

(ch) Cyffuriau

Bydd gofyn i ymgeisydd sydd wedi'i gael yn euog o drosedd yn ymwneud â chyffuriau beidio â throsteddu am o leiaf dair blynedd cyn y gellid derbyn cais ganddo, neu bum mlynedd ar ôl triniaeth ddadwenwyno os bu'n gaeth i gyffuriau.

(d) Trosedd anweddu

Gan fod gyrwyr cerbydau hacnai a cherbydau hurio preifat yn aml yn cludo teithwyr ar eu pennau eu hunain, gwrthodir ymgeiswyr sydd wedi'u cael yn euog o ddinoethi anweddu, denu at ddibenion anfoesol neu o un o'r troseddau rhywiol mwyaf difrifol eraill, tan yr aiff cyfnod hir (o leiaf dair i bedair blynedd) heb iddynt droseddu. Ni ystyrir ymgeisydd sydd wedi'i gael yn euog fwy nag unwaith o drosedd o'r fath tan i o leiaf bum mlynedd fynd heibio ers y drosedd ddiwethaf. Rhoddir rhybudd cryf ynglyn ag ymddygiad yn y dyfodol ym mhob achos.

(dd) Trais

Gan fod gyrwyr cerbydau hacnai a cherbydau hurio preifat yn dod i gysylltiad agos â'r cyhoedd, cymerir camau cadarn pan geir ceisiadau gan ymgeiswyr sydd wedi'u cael yn euog o wneud niwed corfforol difrifol, clwyfo neu ymosod. Rhaid i o leiaf dair blynedd fynd heibio heb iddynt gyflawni trosedd o'r fath cyn y gellid derbyn cais a hyd yn oed bryd hynny, rhoddir rhybudd cryf.

(e) Anonestrwydd

Disgwylir gallu ymddiried mewn gyrwyr cerbydau hacnai a cherbydau hurio preifat. Mae'r ffaith bod cymaint o eiddo yn cael ei adael yn eu gofal yn arwydd o ffydd pobl fusnes ynddynt. At hynny, mae hi'n weddol rwydd i yrrwr anonest dwyllo'r cyhoedd trwy godi mwy na'r tâl cyfreithiol ac ati arnynt. Mae teithwyr tramor yn cael eu drysu'n hawdd gan arian newydd ac yn ysglyfaeth rhwydd i yrwyr anonest. Am y rhesymau hyn, cymerir camau cryfion yn erbyn y rheini sydd wedi'u cael yn euog o fod yn anonest. Fel arfer, bydd tair i bum mlynedd wedi mynd heibio heb iddynt droseddu cyn y bydd yr Awdurdod yn gallu derbyn cais ganddynt.